Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Shotton
# Plymouth Street
# Ysgol Croes Atti Glannau Dyfrdwy
# Shotton
# Glannau Dyfrdwy
# CH5 1JD

**Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/06/2015**

## Cyd-destun

Agorodd Cylch Meithrin Shotton ym Medi 2014. Mae wedi'i leoli yn Ysgol Gymraeg Croes Atti, Glannau Dyfrdwy, yn awdurdod lleol Sir y Fflint.

Mae'r cylch chwarae wedi cofrestru i dderbyn hyd at 20 o blant y sesiwn a derbynnir plant o ddwy a hanner oed ymlaen. Mae 16 o blant ar y gofrestr, yn amrywio o ddwy a hanner i bedair oed. Ar hyn o bryd, mae dau o blant tair oed yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu yn y lleoliad. Mae'r cylch chwarae yn darparu sesiynau amser cinio a phrynhawn, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Saesneg yw iaith y cartref bron bob un o'r plant. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r cylch chwarae. Mae tri aelod staff yn y lleoliad, gan gynnwys yr arweinydd. Mae pob un ohonynt yn brofiadol yn gweithio gyda phlant ifanc ac mae ganddynt gymwysterau addas. Mae arweinydd y cylch chwarae wedi bod yn ei swydd ers i'r lleoliad agor.

Nid yw'r lleoliad wedi'i arolygu eto gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Dyma'r tro cyntaf i Estyn arolygu'r lleoliad.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu
- Maent yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant
- Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu bwyta'n iach a mwynhau'r awyr agored ac ymarfer corff
- Mae digon o adnoddau o ansawdd da
- Mae'r lleoliad yn darparu ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol
- Mae'r lleoliad dan do wedi'i drefnu a'i gynnal a chadw'n dda

Fodd bynnag:

- Nid yw cynllunio'n darparu cymorth systematig eto ar gyfer datblygiad medrau plant, gan gynnwys datblygu medrau Cymraeg
- Megis dechrau datblygu y mae prosesau arsylwi ac asesu, ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i ategu dysgu plant.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau ei gilydd
- Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gymorth a chyngor
- Mae ymarferwyr wedi gwneud cynnydd gwerthfawr ers i'r lleoliad agor
- Mae gan y lleoliad berthynas gadarnhaol â phlant a rhieni
- Mae Mudiad Meithrin yn goruchwilio gwaith y cylch yn effeithiol
- Mae'r lleoliad yn elwa ar bartneriaethau o ansawdd da gyda'r awdurdod
- Mae'r lleoliad yn rheoli'r defnydd ar staffio ac adnoddau yn effeithlon i ategu'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn briodol

Fodd bynnag:

- Nid yw arferion wedi'u sefydlu'n ddigon da eto i ategu dysgu plant yn briodol
- Wrthi'n cael ei ffurfio y mae cynllunio systematig ar gyfer gwella ac nid yw wedi'i ddatblygu'n dda

## Argymhellion

A1 Sefydlu gweithdrefnau cynllunio o ansawdd da i sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da

A2 Cynllunio'n systematig i ddatblygu medrau Cymraeg plant

A3 Cryfhau arferion ac amseroedd pontio fel bod yr holl blant yn cymryd rhan yn llawn

A4 Sefydlu system effeithiol i gofnodi arsylwadau ac asesiadau er mwyn bodloni anghenion dysgu plant

A5 Datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol er mwyn nodi a blaenoriaethau meysydd i'w datblygu yn llwyddiannus

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dd/B |
|---|---|

**Safonau a Lles: Dd/B**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant na'u safonau mewn datblygu eu medrau, y Gymraeg a lles. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd ar y rhain heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ar draws bron pob maes dysgu. Er enghraifft, caiff plant gyfleoedd da i ddatblygu eu dychymyg yn yr ardal adeiladu ag adnoddau da ac i ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar yn tynnu lluniau defaid i'w harddangosfa wanwyn a defnyddio sialciau tu allan. Dysgant am y byd o'u cwmpas, er enghraifft tra'n dysgu am arwyddion o'r gwanwyn a chwilio am fwystfilod bach yn yr ardal awyr agored.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn eu chwarae a thrwy weithgareddau dan arweiniad oedolion. Er enghraifft, caiff plant eu hannog i ymuno â chyfrif yn ystod amser cofrestru ac amser byrbryd. Mae ymarferwyr yn helpu plant i adnabod eu henwau ar labeli a darllenant i'r plant yn rheolaidd i helpu i ddatblygu eu medrau gwrando a darllen cynnar.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn cyfathrebu yn Gymraeg gyda'r plant drwy gydol y sesiwn. Cyflwynant eirfa'n naturiol trwy chwarae, storïau a chaneuon. Yn yr enghreifftiau gorau, mae patrymau iaith yn cael eu hatgyfnerthu'n ofalus, er enghraifft wrth annog plant i ofyn am ffrwythau adeg egwyl. Fodd bynnag, nid yw cynllunio systematig i gefnogi medrau Cymraeg plant wedi'i ddatblygu'n dda. Mae gan blant gyfleoedd priodol i ddatblygu eu hunaniaeth ddiwylliannol, er enghraifft pan fyddant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn mwynhau storïau wedi'u hysgrifennu gan awduron adnabyddus o Gymru.

Mae ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio ar y cyd ac, o ganlyniad, darparant weithgareddau addas â ffocws i helpu plant i ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, cynlluniant i blant ddysgu sut mae planhigion yn tyfu, cyfrif ac aros eu tro wrth blannu hadau blodau'r haul. Fodd bynnag, yn gyffredinol, megis dechrau datblygu y mae cynllunio.

Mae'r lleoliad wedi cymryd camau tuag at baratoi i fynd â'r plant allan i'r ardal leol. Fodd bynnag, ni fu unrhyw gyfleoedd i blant fynd ar deithiau na dysgu gan ymwelwyr eto.

## Addysgu: Digonol

Mae ymarferwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen trwy gymorth effeithiol gan yr athrawes cyfle cynnar a thrwy fynychu hyfforddiant. Er enghraifft, deallant bwysigrwydd cynnig cydbwysedd rhwng gweithgareddau dan arweiniad plant a gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion. Deallant yr angen i ddefnyddio holi yn briodol i herio meddwl plant, a gweithredu'n hyblyg i ategu anghenion unigol. Mae ymarferwyr yn dechrau rhoi'r egwyddorion hyn ar waith, er enghraifft pan ddarparant gyfleoedd ychwanegol i blant ymarfer eu medrau defnyddio siswrn.

Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd awyr agored ysgogol a diddorol y mae plant yn mwynhau ei ddefnyddio, gan ychwanegu eitemau fel llyfrau o'r llyfrgell leol a chregyn o'r traeth i ymestyn dysgu plant. Er nad yw'r ardal ddysgu awyr agored wedi'i sefydlu'n llawn eto, mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod plant yn cael cyfleoedd digonol i ddysgu trwy chwarae tu allan.

Mae gan y lleoliad ddull digynnwrf a chadarnhaol o reoli ymddygiad. Mae ymarferwyr wedi datblygu perthynas waith dda gyda'r plant a chyda'i gilydd. Maent yn sefydlu trefn reolaidd i ategu dysgu plant. Yn yr enghreifftiau gorau, defnyddiant ganeuon i gefnogi plant yn dda wrth iddynt symud o un gweithgaredd i un arall. Fodd bynnag, nid yw arferion yn cael eu hatgyfnerthu'n gyson bob amser, er enghraifft yn ystod amser tacluso ac ar ddiwedd amser byrbryd. O ganlyniad, nid yw plant bob amser yn talu sylw'n llawn yn ystod y sesiwn. Er bod ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn gyson yn y lleoliad, mewn ambell achos, nid yw'r patrymau iaith a ddefnyddir yn hollol gywir.

Mae ymarferwyr yn dechrau cofnodi ychydig arsylwadau o gynnydd plant, gan gyfrannu'n ddefnyddiol at ddatblygu proffiliau syml ar gyfer y plant sydd wedi'u hariannu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, megis dechrau datblygu y mae arsylwi ac asesu yn y grŵp. Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth addas i rieni am gynnydd eu plant trwy drafodaethau anffurfiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r lleoliad yn trefnu darpariaeth dda ar gyfer iechyd a lles plant. Caiff plant eu hannog i fwyta ac yfed byrbrydau iach a rhoddir digon o gyfleoedd iddynt fwynhau awyr iach ac ymarfer corff. Mae'r lleoliad wedi datblygu polisïau clir i hybu ymddygiad cadarnhaol ac mae ymarferwyr yn gweithredu ar y rhain yn gyson. O ganlyniad, mae'r plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad, maent yn hapus a sicr yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am help a chymorth.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer addysg ysbrydol, foesol a chymdeithasol plant. Er enghraifft, caiff plant eu hannog i rannu a chymryd eu tro drwy gydol y sesiwn a dweud diolch am eu byrbryd. Caiff plant gyfleoedd addas i ddatblygu ymdeimlad o ryfeddod, er enghraifft pan fyddant yn gwylio malwod yn symud yn yr ardal awyr agored. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau, fel ar adeg byrbryd, yn fwy cyfyngedig. Megis dechrau cael eu datblygu y mae cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol a dysgu am gynaliadwyedd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi anghenion dysgu

ychwanegol plant. Mae ymarferwyr yn deall pwysigrwydd nodi pryderon yn gynnar. Fodd bynnag, nid ydynt yn cofnodi arsylwadau i ategu'r broses hon, olrhain cynnydd plant a sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu bodloni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad ethos cynnes a chroesawgar lle caiff yr holl blant eu trin yn gyfartal, gyda pharch. Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr holl blant yn gallu manteisio'n gyfartal ar weithgareddau, fel bod yn 'Helpwr Heddiw' yn eu tro. Maent yn annog plant i helpu ei gilydd yn briodol, er enghraifft pan fyddant yn gwisgo'u cotiau i fynd tu allan. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn ystafell mewn ysgol leol sydd newydd ei hagor. Mae'r amgylchedd dan do wedi'i addasu'n llwyddiannus i fodloni anghenion plant ifanc a chaiff ei gynnal a chadw'n dda. Mae plant yn elwa o'r adnoddau ysgogol niferus, o ansawdd da, a ddarperir iddynt, fel yr ardal lyfrau gynhwysfawr a'r cornel cartref croesawgar. Mae arddangosfeydd deniadol ar y waliau sy'n dathlu gwaith y plant ac yn cefnogi eu dysgu. Er bod rhaid i blant gerdded pellter i gyrraedd y toiledau a'r ardal awyr agored, mae ymarferwyr yn rheoli hyn yn effeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r lleoliad yn datblygu ei ardal awyr agored, gan wneud defnydd mwyfwy gwerthfawr o'r lle sydd ar gael. Mae ymarferwyr yn cynnal asesiadau risg rheolaidd i sicrhau ei bod yn ddiogel i'r plant. Fodd bynnag, mae'r ardal awyr agored yn rhy fach i ganiatáu i'r plant ddatblygu eu medrau echddygol bras yn llawn.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinydd y lleoliad yn dechrau rhoi ei stamp ar waith y cylch chwarae. Mae hi wedi ymateb yn dda i gymorth gan yr athrawes cyfle cynnar a Mudiad Meithrin ac mae'n dechrau sefydlu arfer dda y Cyfnod Sylfaen yn y lleoliad. Mae ganddi ymdeimlad priodol o ddiben ar gyfer y grŵp, gan anelu at greu man lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, yn mwynhau dysgu ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r weledigaeth hon yn cyfrannu'n effeithiol at ethos cadarnhaol y lleoliad. Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cyflawni eu rolau'n briodol, gan wneud defnydd addas o arbenigedd unigol. O ganlyniad, mae'r plant yn ddiogel ac yn hapus yn y lleoliad ac mae ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Fodd bynnag, mae'r arweinydd yn llai llwyddiannus wrth reoli dysgu ac addysgu o ddydd i ddydd yn effeithiol. Er enghraifft, nid yw arferion wedi'u sefydlu'n dda eto i gefnogi dysgu plant yn briodol.

Mae Mudiad Meithrin yn rheoli'r cylch yn effeithiol. Mae ganddynt weledigaeth rymus ar gyfer sefydlu cylch chwarae cyfrwng Cymraeg uchel ei barch yn yr ardal. Mae rheolwyr Mudiad Meithrin yn rhoi cymorth gwerthfawr i arweinydd y lleoliad, fel sicrhau bod pob polisi a gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol ar waith. Maent yn canolbwyntio ar gyflawni safonau uchel yn y lleoliad, er enghraifft rhoi gweithdrefnau rheoli perfformiad addas ar waith. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar yn y cylch i arfarnu unrhyw effaith.

Mae'r cylch chwarae yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, fel annog bwyta ac yfed yn iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr holl ymarferwyr ymrwymiad cadarnhaol i wella'n barhaus. Maent yn dechrau nodi cryfderau yn eu harfer yn briodol ac yn magu hyder wrth nodi meysydd i'w datblygu.

Mae ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Yn yr amser cymharol fyr y mae'r lleoliad wedi bod ar agor, mae ymarferwyr wedi gwneud cynnydd gwerth chweil. Er enghraifft, maent wedi sefydlu amgylchedd dysgu awyr agored gyda help gan dîm yr awdurdod lleol. Maent wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at wella'r ddarpariaeth ar gyfer chwarae awyr agored ac maent wedi nodi'r angen i wella gweithdrefnau asesu. Fodd bynnag, wrthi'n cael eu ffurfio y mae'r cynllunio systematig ar gyfer gwella a deall y broses hunanarfarnu.

Mae Mudiad Meithrin yn goruchwylio gwaith y lleoliad yn effeithiol. Mae ganddo gynllun hirdymor manwl ar waith, sy'n cynnwys camau penodol ac amserlenni ar gyfer cwblhau. Hefyd, mae ganddo weithdrefnau i gynnal 'gwiriadau iechyd' blynyddol defnyddiol yn y lleoliad i sicrhau llywodraethu da. Mae'r systemau hyn yn newydd ac mae'n rhy fuan i asesu eu heffaith eto.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Yn yr amser byr ers agor y lleoliad, mae ymarferwyr wedi sefydlu partneriaethau gwerth chweil sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau i blant.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu partneriaeth ddefnyddiol â rhieni. O ganlyniad, mae plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad ac ymdrinnir â phryderon yn effeithiol. Mae pecyn croeso llawn gwybodaeth yn sicrhau bod rhieni'n gwybod am bolisïau ac arferion y grŵp. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r adborth anffurfiol rheolaidd a gânt am gynnydd eu plant.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol ag athrawes cyfle cynnar yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r grŵp yn gweithio'n agos â'r athrawes cyfle cynnar, gan weithredu'n briodol ar gyngor a roddwyd, er enghraifft wrth osod yr amgylchedd dysgu ysgogol. Mae'r bartneriaeth werthfawr â Mudiad Meithrin yn sicrhau bod gweithdrefnau rheoli effeithiol ar waith.

Mae'r lleoliad yn datblygu cysylltiadau defnyddiol â'r grŵp Ti a Fi lleol, gan helpu plant i ymgartrefu'n dda pan fyddant yn cyrraedd am y tro cyntaf. Mae'r lleoliad yn sefydlu cysylltiadau defnyddiol â'r ysgol fwydo. Er enghraifft, fe wnaeth plant, rhieni ac ymarferwyr gymryd rhan mewn diwrnod 'Hwyl i'r Teulu' diweddar yn yr ysgol, ochr yn ochr â nifer o fudiadau eraill, gan helpu i sefydlu lle'r grŵp yn y gymuned leol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad yn rheoli'r defnydd ar staffio ac adnoddau yn effeithlon i gynorthwyo cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn briodol.

Mae ymarferwyr wedi gwneud defnydd da o hyfforddiant a chymorth i wella'u harfer ers i'r lleoliad agor. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar y Cyfnod Sylfaen

wedi helpu ymarferwyr i ddeall sut i gynllunio tasgau â ffocws yn ogystal â sut i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol i wella cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau.

Caiff ymarferwyr â chymwysterau addas eu dosbarthu'n ofalus i wneud defnydd priodol o'u harbenigedd, fel darllen storïau ac arwain sesiynau grŵp. Gall plant fanteisio ar adnoddau o ansawdd uchel sy'n ysgogol a heriol. Mae ymarferwyr yn gwneud ychwanegiadau gwerth chweil i'r rhain, er enghraifft trwy ddefnyddio'r llyfrgell leol yn dda a dod â chregyn o lan y môr i'r plant eu harchwilio. Caiff yr amgylchedd dysgu ei reoli'n dda ac mae'n ysgogol a diddorol.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drylwyr o'r gyllideb ac mae'n cynllunio'n effeithiol i flaenoriaethu gwariant yn briodol. Caiff cyllid a ddyrennir ar gyfer gwariant rheolaidd ar nwyddau traul ei reoli'n ofalus. Fodd bynnag, oherwydd y diffygion presennol yn y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 o ymatebion. Ni ddangosir data.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant rheolaidd i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i’r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |